CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD	19 Tachwedd, 2026
TEITL	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
RHESWM DROS GRAFFU	Cyfle i Aelodau drafod a chraffu mesurau a blaenoriaethau gwella'r Adran
AWDUR	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
AELOD CABINET	Y Cynghorydd. June Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

Cyflwyno diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar faterion perfformiad hanner cyntaf 2026/27 o fewn yr Adran.

2. Cefndir / Cyd-destun

2.1 Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf am ein prosiectau ynghlwm â Chynllun y Cyngor; mesurau herio perfformiad yr Adran; ynghyd â'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma 'rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd yma yn y flwyddyn 2026/27. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu herio gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad diweddar ac 'rwyf yn hapus gyda pherfformiad yr Adran.

2.2 Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor (Gwynedd Werdd)

Mae'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir ar gyfer y prosiect 'Gweithredu ar risgiau llifogydd o fewn Cynllun y Cyngor' i'w gweld yn Atodiad 1. Gwelir fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da ac wedi cwblhau'r prif gerrig milltir y prosiect.

Mae gwaith yn parhau i weithredu amcanion y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol drwy ddatblygu rhaglen o gynlluniau a phrosiectau i leihau risg llifogydd ac erydiad arfordirol ledled Gwynedd.

Mae nifer o gynlluniau ar hyn o bryd yn y cam dylunio manwl ac achos busnes, gan gynnwys Prom y Gogledd Abermaw, Cynllun Llifogydd Bontnewydd, Mynydd Llandegai, Groeslon a Waunfawr.

Mae gwaith adeiladu'r cynllun amddiffyn arfordirol yn Hirael, Bangor nawr wedi ei gwblhau, tra bod astudiaethau dŵr wyneb yn cael eu cynnal yn ardal Bangor a Blaenau Ffestiniog ac mae gwaith datblygu opsiynau yn mynd rhagddo ar gyfer cynlluniau llifogydd yn Clynnog Fawr a Criccieth.

Mae'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae sylwadau wedi'u derbyn ar y cynnwys. Disgwylir derbyn cymeradwyaeth ffurfiol i'r Strategaeth, gan ddarparu'r fframwaith strategol ar gyfer blaenoriaethu a datblygu cynlluniau llifogydd ac erydiad arfordirol yn y dyfodol agos.

Rydym fel adran hefyd yn cyfrannu i sawl blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

2.3 Gwaith dydd i ddydd yr Adran (Mesurau Perfformiad)

Mae mesurau perfformiad yr Adran i'w gweld yn Atodiad 2. Fe welir bod yma 30 mesur sydd yn adlewyrchu pwrpas gwasanaethau'r Adran.

Mae'r mesurau yn cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad ac yn dilyn ein cyfarfod fis Medi adroddir bod 76.6% o'r mesurau yn wyrdd. Mae hyn yn gadarnhad o'r gwaith da sydd wedi ei gyflawni yn erbyn perfformiad y gwasanaethau dros y flwyddyn gyfredol.

Dyma drosolwg ar rai o fesurau'r Adran:

Mesurau Corfforaethol/Adrannol

Mae rhain yn edrych ar berfformiad yr Adran o ran Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Teitlau Mandadol, Hunanasesiad Iaith a chyfradd salwch yr Adran. Dylid nodi bod ein canran ymateb ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar ddiwedd Medi yn 97.7% gyda dim ond un cais wedi ei ateb yn hwyr. Rydym hefyd yn falch o adrodd fod ein perfformiad o ran canran staff a'r gweithlu sydd wedi cwblhau teitlau mandadol wedi gwella yn sylweddol. Mae'r cynnydd hwn yn deillio o waith yr Hyfforddwr Diogelu Corfforaethol a ddatblygodd fideo i alluogi gweithwyr rheng flaen i gwblhau'r modiwl diogelu. Mae nifer o fodiwlau newydd wedi'u cyflwyno, gyda rhagor ar y gweill, a byddwn yn parhau i weithio i wella'r cyfraddau cwblhau.

Cynnal Priffyrdd

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn parhau i ymateb yn gyflym i faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr y ffyrdd, gan wneud 80.3% o ddiffygion critigol a 76.6% o ddiffygion diogelwch yn saff o fewn y targedau amser perthnasol. Derbyniwyd 395 o gwynion am dyllau mewn ffyrdd rhwng Ebrill a Medi, gyda'r gwasanaeth yn llwyddo i gau ceisiadau mewn cyfartaledd o 9 diwrnod.

Mae cyflwr cyffredinol rhwydwaith ffyrdd y sir ar hyn o bryd mewn cyflwr boddhaol, gyda 69.3% o ffyrdd Dosbarth A, 65.1% o ffyrdd dosbarth B a 46.8% o ffyrdd dosbarth C yn gyffredinol mewn cyflwr da. Mae'r buddsoddiad diweddar drwy arian grant Llywodraeth Cymru i waith cynnal a chadw a gwelliannau i'r rhwydwaith yn sicrhau modd sefydlog dros amser yng nghyflwr presennol y rhwydwaith sirol.

Goleuo Stryd

Mae'r gwasanaeth Goleuo Stryd yn parhau i ymateb i ddiffygion o fewn eu targed amser o 5 diwrnod, ac yn wir yn ymateb iddynt ar gyfartaledd o fewn 2.6 diwrnod. Fodd bynnag, os oes nam ar ased sydd yn berchen i'r Grid Cenedlaethol, mae ganddynt 20 diwrnod gwaith i ymateb sydd tu hwnt i'n rheolaeth ni. Gall hyn ar adegau achosi rhwystredigaeth o ran y gwasanaeth i'r cwsmer. Er mwyn rhannu mwy am waith y gwasanaeth yma rydym wedi datblygu mesur newydd eleni fydd yn adrodd ar archwiliadau lampau stryd y Sir yn unol â'r rhaglen waith.

Gwasanaeth Fflyd

Mae'r gwasanaeth yn perfformio yn dda iawn ac mae'r gwaith ar y system fflyd newydd wedi profi'n lwyddiant. Mae'r gwaith o drosglwyddo fflyd y Cyngor i gerbydau "gwyrdd" yn parhau gyda 94 o geir neu faniau yn rhai trydan neu hybrid erbyn hyn. Yn ôl adroddiad gan y Gwasanaeth Ynni, Llywodraeth Cymru - Gwynedd oedd yr ail ymhlith awdurdodau gwledig Gwynedd o ran nifer y cerbydau "gwyrdd" oedd ganddynt.

Gwasanaeth Edrychiad Stryd a TCC

Mae'r gwasanaeth glanhau strydoedd wedi elwa ar fuddsoddiad mewn technoleg ac offer newydd, gan gynnwys peiriannau ysgubo mwy effeithiol a system ddigidol i gofnodi gwagio biniau a monitro lefelau llenwi biniau stryd. Mae'r wybodaeth a gesglir yn helpu i gynllunio adnoddau'n well a darparu gwasanaeth mwy effeithiol yn unol â'r galw. Yn ogystal, mae'r system yn helpu i fonitro a rheoli tasgau'r ysgubwyr ffordd tra bod peiriannau arbenigol yn sicrhau bod ardaloedd anodd eu cyrraedd a strydoedd cul yn derbyn sylw priodol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i gryfhau partneriaethau lleol a gwella cyfathrebu gyda chynghorau cymuned, aelodau lleol a grwpiau cymunedol er mwyn cyflawni glanhau mwy trylwyr, defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a gwella glendid ac edrychiad cymunedau ar draws y Sir.

Toiledau Cyhoeddus

Mae'r Gwasanaeth Asedau Bwrdeistrefol yn parhau i ddarparu a chynnal 60 o doiledau cyhoeddus ledled y Sir, yn ogystal â chefnogi 37 o doiledau cymunedol. Yn ystod hanner cyntaf 2026/27 derbyniwyd 129 o ymholiadau, gyda'r prif faterion yn ymwneud â glendid (23%), oriau agor (17%) a thoiledau wedi'u blocio (16%). Er bod nifer yr ymholiadau wedi cynyddu yn ystod misoedd yr haf, mae'r gwasanaeth wedi cynnal amser ymateb cyfartalog o bedwar diwrnod rhwng Ebrill a Medi, gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus i ddarparu toiledau glân, diogel ac addas i drigolion ac ymwelwyr. Rydym hefyd yn falch o adrodd ein bod wedi agor bloc o doiledau o'r newydd yn lle yr hen adeilad ar Prom y Gogledd yn Abermaw. Yn ogystal, rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau cyllid drwy Gronfa Balchder Bro Gwynedd i uwchraddio'r toiledau cyhoeddus yng Nghambrian Court, Abermaw, gan ddisgwyl gweld y gwaith yn cael ei gwblhau yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

Mae YGC yn perfformio'n arbennig o dda ar hyn o bryd, gyda 7 o'u 8 mesur perfformiad yn wyrdd. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith caled a safon uchel y timau wrth gyflawni prosiectau cymhleth ac arbenigol ar draws y Sir ac ar draws Gymru gyfan. Mae'r rhaglen waith yn parhau'n iach ac uchelgeisiol, gyda nifer sylweddol o brosiectau llifogydd, peirianneg sifil ac amgylcheddol ar y gweill. Ein prif gleient yw Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac mae ystod y gwaith a ddarperir iddynt yn amrywio o brosiectau bychan i brosiectau sylweddol eu maint.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau craidd megis rheoli perygl llifogydd, dylunio seilwaith, arolygon tir a gwaith adeiladu, mae YGC bellach yn cynnig ystod eang o wasanaethau ymgynghorol arbenigol sy'n denu cleientiaid nid yn unig yng Ngwynedd ond ar draws Cymru gyfan. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus, cymunedau lleol a phartneriaid rhanbarthol i ddarparu atebion cynaliadwy sy'n gwella diogelwch, gwydnwch ac ein ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

'Rwyf yn falch o nodi i YGC fod yn parhau i dyfu ei enw da fel tîm o Ymgynghorwyr gyda rhagoriaeth beirianyddol yng Nghymru, gan ddarparu gwasanaeth proffesiynol, dibynadwy ac arloesol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r Sir a thu hwnt. Drwy hyn yr ydym yn sicrhau cyfleoedd am swyddi lleol yma yng Ngwynedd yn y maes ymgynghoriaeth.

2.4 Adroddiadau Archwilwyr Allanol

Mae'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn dal, ac yn cynnal tri achrediad allweddol sef BSI - ISO 45001 (Iechyd a Diogelwch), ISO 14001 (Amgylcheddol) ac ISO 9001 (Ansawdd) - sy'n sail gadarn i'n gwaith ar draws yr Adran. Mae'r safonau hyn yn sicrhau ein bod yn gweithredu gyda'r lefel uchaf o ddiogelwch, rheolaeth amgylcheddol ac ansawdd, ac yn rhoi hyder i'n cleientiaid a'n partneriaid yn y gwasanaeth a ddarperir. Un o ofynion ein gwaith drwy gytundeb lefel gwasanaeth gydag Asiantaeth Cefnffyrdd ydyw ein bod yn meddu ac yn cadw'r achrediadau yma.

Yn dilyn yr archwiliadau allanol dros y flwyddyn, gallwn adrodd yn gadarnhaol iawn fod nifer o sylwadau cefnogol wedi'u derbyn gan yr archwilwyr. Yn bwysicaf oll, ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â chadw neu gynnal y safonau, gan adlewyrchu gwaith trefnus a phroffesiynol y tîm.

Mae'r canlyniad yn dystiolaeth o ymrwymiad parhaus yr Adran i welliant, tryloywder ac arweinyddiaeth o ran arferion gorau yn y meysydd Iechyd a Diogelwch, Amgylcheddol ac Ansawdd, ac mae'n cefnogi ein gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws pob maes o'n gwaith.

2.5 Cynlluniau Arbedion a Thoriadau

Cyfanswm Cynlluniau Arbedion 2026-27 oedd £91,000. Mae'r Adran ar drac i gyflawni'r swm llawn hwn. Gwireddwyd gwerth £120,000 o Arbedion Hanesyddol a bu llithro i'r flwyddyn hon. Gweler gwerth 117k o Arbedion Hanesyddol yn parhau ar y Gyllideb.'

3. Cwestiynau Ychwanegol sydd wedi codi gan y pwyllgor:

3.1 Beth yw'r risgiau i gyflawni'r prosiectau blaenoriaeth?

- Dibyniaeth ar gyllid allanol: mae ceisiadau am gymorth grant gan Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno. Os na fydd y cyllid yn cael ei gymeradwyo neu os bydd oedi, gallai hyn effeithio ar allu'r gwasanaeth i gyflawni'r rhaglen waith.
- Dibyniaeth ar bartneriaid allanol: mae llwyddiant y gwaith yn dibynnu'n rhannol ar gydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru a chynnydd y prosiectau yn Fairbourne, Porthmadog a Pwllheli. Gall unrhyw oedi neu newid blaenoriaethau gan bartneriaid effeithio ar amserlenni'r Cyngor.
- Risgiau cynllunio: mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer prosiect Cei y Gogledd, Bermo, mae risg y gallai'r broses gynllunio, amodau neu wrthwynebiadau achosi oedi i'r prosiect a chynyddu'r risg sylweddol i'r gymuned.

3.2 Pa risgiau sydd o ran perfformiad?

Mae nifer o risgiau'n gallu effeithio ar berfformiad y gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr adran, megis cyfnodau o dywydd garw, digwyddiadau llifogydd ac effeithiau ehangach newid hinsawdd sydd yn gallu cynyddu'r galw ar wasanaethau ac arwain at wariant annisgwyl.

Yn ogystal, gall pwysau ariannol, dibyniaeth ar ffynonellau cyllid allanol, capasiti staffio ac oedi gan bartneriaid neu gontractwyr effeithio ar allu'r adran i gyflawni rhaglenni gwaith a chyrraedd targedau perfformiad.

3.3 Beth sydd yn cael ei wneud i liniaru'r risgiau yma?

Mae'r adran yn cynnal trefniadau monitro cadarn er mwyn adnabod a rheoli risgiau mor gynnar â phosibl. Mae perfformiad gwasanaethau a sefyllfa gyllidol yn cael eu monitro'n rheolaidd gan dimau rheoli'r gwasanaethau, gyda pherfformiad, cynnydd prosiectau a gwariant yn cael eu herio drwy drefniadau adrodd ffurfiol.

Yn ogystal, mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cael ei hadolygu'n chwarterol er mwyn sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu hasesu a bod camau lliniaru priodol yn cael eu gweithredu.

3.4 Oes ystyriaeth wedi ei roi i lunio mesurydd perfformiad i fesur perfformiad yn erbyn y rhaglen gwaith ffordd?

Wrth edrych ymlaen i hanner olaf y flwyddyn, byddwn yn cyflwyno mesurydd perfformiad o'r newydd fydd yn adrodd ar berfformiad y gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn erbyn y rhaglen waith ffordd.

4. Ymgynghori

Mae'r adroddiad wedi ei chreu ar sail gwybodaeth a gyflwynwyd i gyfarfod diweddaraf herio a chefnogi perfformiad yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Rheolwyr Gwasanaeth a minnau yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiect Cynllun y Cyngor 2023-28

Atodiad 2: Mesuryddion Perfformiad yr Adran